

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Penweddig, Aberystwyth,
Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 20
mya Rhan-amser) 2017

The A44 Trunk Road (Penweddig,
Aberystwyth, Ceredigion) (Part-
time 20 mph Speed Limit) Order
2017

Gwnaed 29 Awst 2017

Made 29 August 2017

Yn dod i rym 31 Awst 2017

Coming into force 31 August 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llangurig i Aberystwyth yr A44, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 Llangurig to Aberystwyth Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Penweddig, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017.

1. This Order comes into force on 31 August 2017 and its title is The A44 Trunk Road (Penweddig, Aberystwyth, Ceredigion) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017.

2.—(1) Yn Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd Llangurig i Aberystwyth yr A44 ym Mhenweddig yn Sir Ceredigion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Chilgant Padarn hyd at bwynt 11 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Ddewi.

Cymhwys

4.—(1) Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

29 Awst 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A44 Llangurig to Aberystwyth trunk road at Penweddig in the County of Ceredigion.

Restriction

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road that extends from a point 45 metres north-west of the centre-point of its junction with Padarn Crescent to a point 11 metres south-east of the centre-point of its junction with St David's Road.

Application

4.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

29 August 2017

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44
(PENWEDDIG, ABERYSTWYTH,
CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 20
MYA RHAN-AMSER) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 31 Awst 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A44 ym Mhenweddig, Aberystwyth, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Chilgant Padarn hyd at bwynt 11 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Ddewi er mwyn gostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant, Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug. Dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y disgwylir i'r terfyn cyflymder is hwn fod yn gymwys.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Awst 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn: Llyfrgell Aberystwyth, Canolfan Alun R. Edwards, Maes y Frenhines, Aberystwyth SY23 2EB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1292240/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A44 TRUNK ROAD (PENWEDDIG,
ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (PART-TIME
20 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 31 August 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A44 trunk road at Penweddig, Aberystwyth, Ceredigion that extends from a point 45 metres north-west of the centre-point of its junction with Padarn Crescent to a point 11 metres south-east of the centre-point of its junction with St David's Road in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Penweddig Comprehensive School, St Padarn's Catholic Primary School, Ysgol Gymraeg Aberystwyth and Plascrug Community Primary School. This reduced speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time.

During a period of 6 weeks from 30 August 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Aberystwyth Library, Canolfan Alun R. Edwards, Queen's Square, Aberystwyth SY23 2EB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1292240/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government